

# Blwch Gwrthrychau Synhwyrdd

## Cynnwys

Brws pren, Gwasgwr lemwn, Bandiau elastig, Sbwng, 'Donut' gwallt  
Rholer gwallt, Carreg, Ffabrig, Gwlân, Rholer paent, Glaswellt  
Papur sidan, Deunyddiau pacio

**Ysbrydolwyd y Blwch Gwrthrychau Synhwyrdd gan arddangosfa yn oriel MOSTYN yn Llandudno - Kiki Kogelnik "Riot of Objects"**Kiki Kogelnik video English:

<https://www.youtube.com/watch?v=o4AA1iUewaQ&t=3s>

Kiki Kogelnik video English with Welsh subtitles:

<https://www.youtube.com/watch?v=oUsd6bCCt9g&t=8s>

Pecyn Adnoddau

Kiki Kogelnik Saesneg: <https://www.mostyn.org/sites/www.mostyn.org/files/MOSTYN%20Resource%20Pack%20Kiki%20Kogelnik.pdf>

Kiki Kogelnik Cymraeg: <https://www.mostyn.org/sites/www.mostyn.org/files/Pecyn%20Adnoddau%20MOSTYN%20Kiki%20Kogelnik.pdf>

**Mae Sian Hutchinson wedi llunio animeiddiad y gwrthrychau yn y pecyn**

<http://www.tickyloewe.com/texture-riot-of-objects/>

**Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y pecyn hwn, yn cynnwys unrhyw syniadau sut i'w wella**

Lluniwyd y pecyn hwn gan Ticky Lowe, Cyfarwyddwr Making Sense CIC. Mae Making Sense yn gwmni budd cymunedol dan arweiniad artist sy'n arbenigo mewn gweithgareddau ac adnoddau synhwyrdd a chreadigol.

Os hoffech chi ganfod rhagor am ein gwaith ewch i

[www.makingsensecic.org.uk](http://www.makingsensecic.org.uk)

neu gysylltu gyda [tickyloewe@makingsensecic.org.uk](mailto:tickyloewe@makingsensecic.org.uk)

Byddem wrth ein boddau'n gweld lluniau neu ffilmiau ohonoch chi'n cymryd rhan yn y gweithgaredd!

Cofiwch sôn am Makingsensecic os ydych chi'n rhoi rhywbeth ar Facebook!

Llenwch y ffurflen adborth os gwelwch yn dda a'i dychwelyd pan fyddwch chi'n derbyn eich parcel synhwyrdd nesaf.



**Ymlaciwch**, cymrwch anadl ddofn ac arafu pethau.  
**Cynigiwch** y blwch i ddewis gwrthrych.  
Daliwch ef yn eich llaw...  
Cyn ei ddadorchuddio **sylwch** pa mor drwm ydi o.



**Tynnwch y gorchudd yn araf a sylwi...**

- ... sut mae'n swnio
- ... sut y cafodd ei lapio
- ... sut mae'n edrych
- ... sut mae'n arogli

**Cyffwrdd...**



Sut mae'n **teimlo** ar y croen?

Rhwng eich bysedd, yn eich llaw, ar eich breichiau.

Gwasgwch o, ei rollo o gwmpas, i fyny ac i lawr, tapio, llusgo, chwyrlio,  
clymu, troi ac ati

**Sylwch** a yw'n teimlo'n wahanol yn dibynnu sut rydych chi'n ei ddefnyddio.  
Ydi o'n teimlo fel roeddech chi'n ei ddisgwyl? Ydi'r teimlad yn eich hatgoffa  
chi o unrhyw beth?



**Cyfunwch** wrthrychau gyda'i gilydd i wneud gwrthrychau mwy teimladwy neu ddolenni ar gyfer gwrthrychau.

**Cyfunwch** wrthrychau o'r cartref neu o'r tu allan.

**Y tu allan cyffyrddwch ffurfiau naturiol a sylwi** sut mae'n teimlo. A yw'n edrych neu'n arogl fel mae'n teimlo neu'n wahanol i hynny?

**Cyffyrddwch heb edrych:** rhowch y gwrthrych mewn bag neu gau eich llygaid.



**Y Garreg:**

**Sylwch** ar ei phwysau... gweadedd... siâp... lliw.

**Newidiwch** ei thymheredd trwy ei roi mewn dŵr cynnes ac yna'i sychu'n gyflym.

**Canfyddwch** y gweadedd olaf ar waelod y blwch a mwynhau creu llanast!

**Lapiwch y gwrthrychau unigol unwaith eto a'u cadw yn y blwch.**

**Os ydych chi am fod yn greadigol:**

Defnyddiwch baent neu inc ar fysedd neu frws a'u trosglwyddo ar bapur i archwilio'r marciau y gellir eu gwneud. Pwyswch nhw i mewn i glai neu does.